REES, ROBERT OLIVER (1819 - 1881), fferyllydd, cyhoeddwr llyfrau, a llenor

Enw: Robert Oliver Rees
Dyddiad geni: 1819
Dyddiad marw: 1881
Rhiant: Catherine Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: fferyllydd, cyhoeddwr llyfrau, a llenor
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Meddygaeth; Argraffu a Chyhoeddi; Gwyddoniaeth a Mathemateg
Awdur: Daniel Williams

Ganwyd yn Nolgellau - ei fam (Catherine Rees) yn hanfod o Oweniaid Pantphylip, Llangelynnin. Yr oedd yn adnabod Evan Jones ('Ieuan Gwynedd'), ac ysgrifennodd gofiant iddo, 1876. Trefnodd i gyhoeddi *Cysondeb y Pedair Efengyl* (E. Robinson), 1855, gwaith David Richard ('Dafydd Ionawr'), a pheth o waith Sarah Jane Rees ('Cranogwen'). Bu ei *Mary Jones, y Gymraes fechan heb yr un Beibl*, 1879, yn anarferol o boblogaidd; fe'i cyfieithwyd i iaith brodorion Bryniau Khassia, Assam. Efe, yn bennaf, biau'r clod am gofgolofn Thomas Charles yn y Bala. Bu farw 12 Chwefror 1881.

Awdur

Y Parchedig Daniel Williams, (1878 - 1968)

Ffynonellau

R. Prys Morris, *Cantref Meirionydd ei chwedlau, ei hynafiaethau, a'i hanes* (1890), 227-8

D. E. Jenkins, *Life of Thomas Charles* (Dinbych 1908), ii, 518; iii, 598

C. Tawelfryn Thomas, *Cofiant darluniadol mewn rhyddiaeth a chan i'r diweddar Barch. Evan Jones (Ieuan Gwynedd), amddiffynydd merched Cymru*

Robert James ('Trebor'), *Dolgellau yn hanesyddol gydag amryw ddarluniau*, 1907

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 101521441

Wikidata: Q20734352

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu